

**Cyfeirnod:** IR754

**Dyddiad cyhoeddi:** 22 Medi 2020

## Cynnal a chadw ffonau

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 28 Awst 2020 pan wnaethoch ofyn am wybodaeth am gynnal a chadw ffonau. Er hwylustod, rwyf wedi atgynhyrchu eich cwestiynau isod ac wedi nodi ein hymatebion cyfatebol.

### **Contract cynnal a chadw ffonau**

**1. Math o Contract: Cynnal a Chadw, Wedi'i reoli, Wedi'i rannu (Os felly, nodwch y sefydliadau)**

*Ar hyn o bryd darperir yr holl deleffoni o dan un contract gyda Interoute, a ddechreuodd ar 17 Gorffennaf 2018 (dyddiad adnewyddu Gorffennaf 2021).*

**2. Cyflenwr Presennol: Os oes mwy nag un cyflenwr, rhannwch bob contract yn unigol.**

*Interoute*

**3. Gwariant Cyfartalog Blynyddol: Y gwariant cyfartalog blynyddol ar gyfer y contract hwn a darparwch y gwariant cyfartalog dros y 3 blynedd diwethaf ar gyfer pob darparwr os gwelwch yn dda**

*Elfen sefydlog y tâl misol yw £3,865.50 ynghyd ag amcangyfrif o £248 y mis yn dâl am alwadau.*

**4. Brand Caledwedd: Prif frand caledwedd system ffôn y sefydliad.**

*Mae'r rhan fwyaf o gydweithwyr yn defnyddio clustffonau Jabra sy'n gysylltiedig â gliniaduron Lenovo.*

**5. Nifer y defnyddwyr ffôn:**

*Mae'r contract yn cynnwys rhifau "deialu uniongyrchol" neu "linellau" ar gyfer 335 o ddefnyddwyr.*

**6. Hyd y Contract: dylech gynnwys unrhyw gyfnodau ymestyn.**

*Gorffennaf 2018 – Gorffennaf 2021*

- 7. Dyddiad Dod i Ben y Contract: Rhowch y diwrnod/mis/blwyddyn os gwelwch yn dda.**

*Gorffennaf 2021*

- 8. Dyddiad Adolygu'r Contract: Rhowch y diwrnod/mis/blwyddyn os gwelwch yn dda.**

*Gorffennaf 2021*

- 9. Rhaglen(ni) sy'n rhedeg ar systemau PBX/VOIP: Rhaglenni sy'n rhedeg ar y system PBX neu VOIP yn benodol. E.e. Canolfan Gyswilt, Rheolwr Cyfathrebu.**

Amh

- 10. Math o System Ffôn: PBX, VOIP, Lync ac ati**

*Skype for Business*

- 11. Disgrifiad o'r Contract: Rhowch ddisgrifiad byr o'r gwasanaeth cyffredinol a ddarperir o dan y contract hwn.**

*Mae'r contract ar gyfer datrysiaid Skype a gynhelir.*

- 12. Mynd i'r Farchnad: Sut gafodd y gwasanaethau hyn eu caffael, rhowch naill ai'r hysbysiad tendro neu'r cyfeirnod fframwaith os gwelwch yn dda. Nodwch os gawsant eu caffael drwy lwybrau eraill.**

*Cawsant eu caffael drwy Fframwaith Gwasanaethau Masnachol y Goron G Cloud 9.*

- 13. Manylion Cyswilt: Ar gyfer y person o'r sefydliad sy'n gyfrifol am bob contract, manylion cyswilt llawn gan gynnwys enw llawn, teitl swydd, rhif cyswilt uniongyrchol a chyfeiriad e-bost uniongyrchol.**

**Os oes gan yr ardal cymorth gwasanaeth fwy nag un darparwr ar gyfer cynnal a chadw ffonau, yna rhannwch bob contract yn unigol ar gyfer pob darparwr os gwelwch yn dda.**

**Os yw'r contract yn wasanaeth a reolir neu'n gontract sy'n darparu mwy na chynnal a chadw ffonau'n unig, anfonwch yr holl wybodaeth a nodir uchod ataf gan gynnwys y person o fewn y sefydliad sy'n gyfrifol am y contract penodol hwnnw os gwelwch yn dda.**

*Rwy'n atal enw Pennaeth TG Swyddfa Archwilio Cymru o dan a40(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth gan ei fod yn ddata personol deiliad y rôl a byddai datgelu'n torri egwyddorion diogelu data Deddf Diogelu Data 2018. Mae hwn yn eithriad llwyr.*

Wrth atal y wybodaeth hon rwyf wedi ystyried canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar ddatgelu data personol <https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/2614720/personal-information-section-40-and-regulation-13-version-21.pdf> a'i ganllawiau ar geisiadau am wybodaeth am weithwyr awdurdodau cyhoeddus [https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/1187/section\\_40\\_requests\\_for\\_personal\\_data\\_about\\_employees.pdf](https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/1187/section_40_requests_for_personal_data_about_employees.pdf). Rôl rheoli canol yw rôl Pennaeth TG, nid yw'n wynebu'r cyhoedd ac nid yw deiliad y rôl yn gyfrifol yn benodol am wario arian cyhoeddus – mae hyn ar lefel uwch yn y sefydliad.

**Os yw'r gwaith cynnal a chadw'r systemau ffôn yn cael ei gynnal yn fewnol, rhowch canlynol i mi os gwelwch yn dda:**

*Ar gyfer pob cwestiwn yn yr adran hon, mae'r ymatebion yn - amherthnasol.*

Os hoffech gwyno am y modd yr ymdriniwyd â'ch cais, ysgrifennwch at Martin Peters, Rheolwr y Gyfraith a Moeseg, drwy e-bost at [martin.peters@audit.wales](mailto:martin.peters@audit.wales) neu drwy'r post i 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

Rhaid i mi hefyd eich cyfeirio at adran 50 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth y gallwch wneud cais oddi tani i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad ynghylch a ymdriniwyd â'ch cais yn unol â'r Ddeddf ai peidio. I gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, gweler y manylion isod:

Information Commissioner's Office

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire SK9 5AF

e-bost: [casework@ico.gsi.gov.uk](mailto:casework@ico.gsi.gov.uk)

Ffôn: 01625 545745

Ffacs: 01625 524510

Dylech nodi, fodd bynnag, y byddai'r Comisiynydd Gwybodaeth fel arfer yn disgwyl i chi fod wedi bod drwy ein holl weithdrefnau cwyno mewnol cyn delio â chais o'r fath. Ceir canllawiau pellach ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth: <https://ico.org.uk/>

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Swyddog Gwybodaeth